



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd 2024 -2025

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd, yn yr un modd â'r Ddyletswydd Ansawdd, wedi cael ei chyflwyno drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a daeth i rym ym mis Ebrill 2023. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG yng Nghymru fod yn agored ac yn onest am y gofal a'r driniaeth mae cleifion yn eu cael.

Beth yw ystyr hyn?

Hyd yn oed pan fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud ei orau glas i atal niwed, gall pobl ddi-ddeddf niwed. Dyna pam mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar waith. Os yw'r gofal a ddarperir wedi achosi niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth claf, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol y sefydliadau ddweud wrth eu cleifion neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan bod niwed wedi cael ei achosi.

Drwy fod yn agored ac yn onest, bydd yn rhoi hyder ac ymddiriedaeth i bobl yn y gofal a'r driniaeth a gawsant gan y Bwrdd Iechyd.

Beth yw ystyr niwed cymedrol neu ddifrifol?

- **Niwed cymedrol** yw pan fydd y driniaeth mae'r claf wedi'i chael gan y GIG wedi achosi neu wedi cyfrannu at achosi niwed iddo, gan arwain at driniaeth bellach. Ar y cam hwn, gall y niwed fod yn ddifrifol, ond nid yn barhaol.



Er enghraifft, mae claf yn cael meddyginiaeth y mae ganddo alergedd iddi, er ei bod wedi'i hysgrifennu yn ei nodiadau fel alergedd. Mae'r claf yn cael adwaith oherwydd y feddyginiaeth. Mae angen i'r claf aros yn yr ysbyty am 4 diwrnod neu fwy cyn iddo wella.

- Mae **niwed difrifol** yn niwed sydd wedi achosi neu wedi cyfrannu at y claf yn dioddef anabledd parhaol neu golli gweithrediad.

Er enghraifft, mae claf yn cael meddyginiaeth y mae ganddo alergedd iddi, er ei bod wedi'i hysgrifennu yn ei nodiadau fel alergedd. Gall hyn arwain at niwed i'r ymennydd neu niwed parhaol arall i organau.

- **Marwolaeth** yw pan fydd claf yn marw, a bod y gofal a'r driniaeth a gafodd gan y GIG wedi achosi neu gyfrannu at y farwolaeth honno.

Er enghraifft, mae claf yn cael meddyginiaeth y mae ganddo alergedd iddi, er ei bod wedi'i hysgrifennu yn ei nodiadau fel alergedd. Mae hyn yn arwain at farwolaeth y claf.

Agwedd y Bwrdd Iechyd at y Ddyletswydd Gonestrwydd

Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

Mae gan y Bwrdd Iechyd dudalen SharePoint benodol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ar ein mewnwyd sy'n darparu lluo o ddeunyddiau hyfforddi sydd wedi cael eu cynhyrchu'n lleol ac yn genedlaethol, ynghyd â mynediad at dempledi a chanllawiau cymorth a fideos i helpu gwasanaethau i weithredu'r Ddyletswydd honno. Mae timau llywodraethiant lleol yn y Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth ac yn adolygu achosion gyda'r Cymunedau Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau. Mae aelodau o'r Tîm Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Integredig Corfforaethol yn helpu gydag ymholiadau. Mae gwaith parhaus wedi'i wneud i ddod â gwasanaethau corfforaethol perthnasol at ei gilydd, fel Cyfraith gofal iechyd, er mwyn sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau'n cael eu dilyn a'u monitro.

Beth sydd wedi herio'r Bwrdd Iechyd?


Mae graddio digwyddiadau a chynnydd yn gywir drwy'r broses adolygu yn parhau i fod yn her i'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae cadarnhau a gweithredu'r Polisi Pryderon Integredig ynghyd â'i strwythur cymorth gweithredol cysylltiedig yn gweithio i wella nid yn unig y prosesau sy'n cael eu dilyn ond ansawdd y data hefyd.

Mae system adrodd Datix Cymru, sef y system lle mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei chofnodi, wedi cael ei huwchraddio rywfaint ar ôl nodi meysydd i'w gwella. Cynhaliwyd adolygiad ar raddfa fawr o'r adran Dyletswydd Gonestrwydd ar y modiwl digwyddiadau yn ystod 2024-2025 a'r bwriad yw rhoi'r newidiadau cymeradwy ar waith yn Datix yn ystod haf 2025. Chwaraeodd y Bwrdd Iechyd ran allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r modiwl ymhellach ac mae'n darparu cymorth parhaus i amrywiol gyfarfodydd Rhwydwaith mewn cysylltiad â datblygu Datix ymhellach mewn modiwlau eraill ac o ran monitro a phrosesau'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn gyffredinol.

Ble mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno yn ystod 2024-25


Yn ystod y flwyddyn adrodd 2024-25, mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan y Bwrdd Iechyd. Cafodd y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno ar 350 o achlysuron (ac eithrio gofal sylfaenol, sy'n cael sylw yn nes ymlaen yn yr adran hon).

Mae Ffigur 1 isod yn dangos sawl gwaith y cafodd y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno bob mis. Sawl gwaith, ar gyfartaledd, y cafodd y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno bob mis = 29.12.



Ffigur 1: Digwyddiadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd fesul Mis

Mae Ffigur 2 isod yn dangos sawl gwaith y mis y cafodd y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno, yn ôl lefel y Niwed.



Ffigur 2: Digwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd Misol yn ôl Lefel y Niwed

Mae'n amlwg bod y gyfran fwyaf o ddigwyddiadau sydd wedi sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn dilyn asesiad interim rheolwyr o niwed, yn perthyn i'r categori cymedrol.

Yn hanesyddol, byddai difrifoldeb cymedrol wedi cael ei ddewis pan oedd yr adolygydd yn ansicr ynghylch difrifoldeb, neu'n teimlo bod y digwyddiad yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau difrifoldeb cymedrol, er nad oedd claf yn dod i unrhyw niwed mewn gwirionedd. Nid yw hwn yn bolisi gan y Bwrdd Iechyd. Mae'n camddeall y goblygiadau o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn arwydd clir bod angen hyfforddiant i gysoni sut caiff difrifoldeb niwed ei ddyrannu yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar ddiffiniadau.

O ganlyniad, credir bod nifer y digwyddiadau sy'n cael eu categorio'n rhai cymedrol ar ôl yr adolygiad cychwynnol yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd, ac mae angen cymorth ar wasanaethau i ddeall pwysigrwydd asesu'r niwed yn gywir, yn unol â'r diffiniad o gymedrol fel y nodir yn y polisi.

Mae deddfwriaeth y Ddyletswydd Gonestrwydd yn mynnu bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd, ar ôl ei sbarduno, roi gwybod i'r claf/perthynas y gallai niwed fod wedi cael ei achosi, drwy hysbysiad "wyneb yn wyneb" a hysbysiad ysgrifenedig dilynol. Dylid rhoi gwybod i'r claf/perthynas hefyd am ganlyniad unrhyw ymchwiliad, oni bai ei fod yn nodi nad yw'n dymuno cael gwybod.

Mae system rheoli pryderon Datix Cymru yn cael ei defnyddio gan y Bwrdd Iechyd i gofnodi pan fydd yr hysbysiadau "wyneb yn wyneb" a'r hysbysiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau a phan fydd unrhyw ymateb terfynol i ymchwiliad yn cael ei rannu â'r claf/perthynas.

O'r **350** o achlysuron pan gafodd y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno, mae 224 o gofnodion wedi'u cau ac, o blith cofnodion y digwyddiadau sydd wedi'u cau:

- Cofnodwyd 190 o hysbysiadau "wyneb yn wyneb" fel rhai sydd wedi'u cwblhau (**85%**)
- Cofnodwyd 107 o hysbysiadau ysgrifenedig fel rhai sydd wedi'u cwblhau (**48%**)
- Anfonwyd 50 o ymatebion terfynol (**22%**)

(Mae'n bosibl bod y camau gweithredu sy'n ofynnol gan y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'u cymryd mewn achosion ychwanegol ond heb eu cofnodi ar system Datix Cymru).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen rhoi sylw i'r sefyllfa hon a'i hadfywio ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses ac i ddarparu mwy o hyfforddiant.

Ar ben hynny, mae gwaith dilysu parhaus wedi nodi, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25, nad yw nifer o ddigwyddiadau a gafodd eu hadrodd fel rhai cymedrol neu uwch (**n=307**), wedi bod yn destun adolygiad rheoli cychwynnol eto. Hefyd, nid yw 807 o ddigwyddiadau eraill a gofnodwyd fel rhai heb unrhyw niwed neu niwed isel wedi bod yn destun adolygiad rheoli eto i asesu lefel y niwed. Pe bai'r adolygiad

rheoli wedi'i gwblhau, a phe bai'r asesiad o niwed wedi aros yn gymedrol neu'n uwch, byddai cyfran o'r nifer hwn hefyd wedi sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae'r mater hwn wedi cael ei uwchgyfeirio drwy gyfarfod y Grŵp Ansawdd a Diogelwch ac aeth grŵp Gorchwyl a Gorffen ati i fynd i'r afael â'r ôl-gronid a hefyd i sicrhau bod y broses yn cael ei symleiddio.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod defnyddwyr y system wedi dod o hyd i ffyrdd o osgoi rhannau penodol o'r ffurflen ymchwilio yn Datix Cymru ac nad yw'r broses yn cael ei dilyn. Mae hyn yn fwyaf tebygol oherwydd blaenoriaethau sy'n gwrthdaro o ran staff yn gorfod defnyddio'r system a'r meysydd gorfodol cynyddol y mae angen eu llenwi er mwyn cau digwyddiad a'r amser a gymerir i gwblhau'r meysydd hynny.

Ers diweddaru Datix i Ffurflen 4A ddechrau mis Ebrill 2024, nid yw'r datrysiaid hwn gan staff yn bosibl mwyach ac nid yw staff yn gallu cau digwyddiadau heb gwblhau'r adolygiad rheoli. Ddwy flynedd ar ôl iddi gael ei chyflwyno, bydd arolwg diweddaru o ddefnyddwyr system Datix Cymru yn cael ei rannu â thîm OFWCMS maes o law.

Dyma'r prif ddsbarthiad o ddigwyddiadau lle cafodd y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno:

- **Niwed pwyso/niwed lleithder** (n=145)
- **Damwain/Anaf fel codymau** (n=46)
- **Triniaeth** (n=40)
- **Asesiad, Ymchwiliad, Diagnosis** (n=40)

Mae nifer y briwiau pwyso lle mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno yn cyfrif am 41% o'r cyfanswm. Mae'n werth nodi bod y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei sbarduno lle gallai niwed fod wedi cael ei achosi a lle gallai ymchwiliad pellach yn yr achosion hyn arwain at gasgliad nad oedd modd osgoi niwed.

Camau mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Mae nifer o fentrau gwella yn cael eu cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r prif themâu ar gyfer digwyddiadau a restrir uchod. Mae gwaith gwella penodol ar waith hefyd, gan adrodd i grwpiau strategol allweddol fel **Grŵp Codymau Strategol** a **Grŵp Briwiau Pwyso a Gafwyd mewn Gofal Iechyd (HAPU) Strategol** y Bwrdd Iechyd, lle mae rhannu arferion da a rhybuddion diogelwch cleifion yn digwydd i helpu i driongli gwybodaeth diogelwch cleifion i lywio gwelliannau a dysgu allweddol.

Mae gwersi a ddysgwyd o achosion y Ddyletswydd Gonestrwydd bellach wedi'u hymgorffori'n ffurfiol â fforymau dysgu'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth a myfyrodau allweddol yn cael eu rhannu'n eang i gefnogi gwelliant parhaus mewn ymarfer. Ar ben hynny, bydd y dysgu hwn yn cael ei gynnwys yn Storfa Ddysgu ganolog y Bwrdd Iechyd pan gaiff ei lansio yn ddiweddaru eleni, gan ddarparu adnodd strwythuredig a hygyrch ar gyfer datblygiad sefydliadol parhaus.

Paratoi Adroddiadau Ddyletswydd Gonestrwydd y Darparwr Gofal Sylfaenol

Gyda effaith o fis Ebrill 2023 ymlaen, rhaid i ddarparwyr Gofal Sylfaenol baratoi adroddiad ynghylch y gofal iechyd y maent yn ei ddarparu o dan contract neu unrhyw drefniant arall gyda'r Bwrdd Iechyd. Bydd yr adroddiad yn cadarnhau a yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno yn ystod y flwyddyn adrodd ynghylch darpariaeth gofal iechyd gan y darparwr gofal sylfaenol.

Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae diwylliant adrodd da ymhlith contractwyr gofal sylfaenol sy'n defnyddio system adrodd Datix Cymru ar gyfer adrodd digwyddiadau. Fodd bynnag, rhaid nodi nad yw defnyddio'r system yn orfodol i gontractwyr gofal sylfaenol. Felly, roedd yn angenrheidiol cysylltu â'r holl gontractwyr i gasglu'r data angenrheidiol ar gyfer yr adroddiad hwn, gan ddarparu dulliau eraill o gasglu data yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar system Datix Cymru.

Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae tua **389 o ddarparwyr gofal sylfaenol**:

- 96 Meddygfeydd Cyffredinol (GPs)
- 144 Fferyllfeydd Cymunedol
- 78 Optegwyr (gan gynnwys darparwyr cartref)
- 71 Meddygfeydd Deintyddol
-

Ar adeg cynhyrchu'r adroddiad hwn, roedd cyfradd ymateb o **90% ar draws pob grŵp contractwyr** i'r cais am wybodaeth. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â chyfradd ymateb 2023–24 ac yn torri i lawr fel a ganlyn:

- Fferyllfa Gymunedol: 90%
- Meddygfa Gyffredinol: 97%
- Meddygfeydd Deintyddol: 92%
- Optegwyr: 81%

Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu crynodeb o'r adroddiadau a ddarparwyd gan ddarparwyr Gofal Sylfaenol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd.

Lle mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno yn ystod 2024–25

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd gan ddarparwyr gofal sylfaenol ar gyfer 2024–25 yn nodi bod y Ddyletswydd o Gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â darpariaeth gofal sylfaenol annibynnol, gyda'r ddyletswydd wedi'i **sbarduno ar 16 achlysur**. Fodd bynnag, o'r adolygiad a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn adroddiadau'r digwyddiadau, mae'n ymddangos bod **8** achos wedi sbarduno'r ddyletswydd.

Y sefyllfaoedd lle daeth y ddyletswydd i rym

Wrth adolygu'r digwyddiadau a adroddwyd y credir eu bod wedi sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, nodwyd themâu a thueddiadau fel a ganlyn. Oherwydd y niferoedd bach iawn, darperir gwybodaeth sylfaenol i atal adnabod achosion unigol:

- Tynnu dannedd anghywir
- Oedi wrth gyfeirio
- Oedi wrth ddiagnosis
- Camgymeriadau wrth ragnodi (alergedd)
- Newid meddyginiaeth heb ei weithredu

Dysgu o ddigwyddiadau contractwyr Gofal Sylfaenol

O ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, mae'r contractwyr annibynnol dan sylw wedi cynnal dysgu i leihau'r risg o ail-ddigwydd. Mae'r dysgu a nodwyd a fyddai o fudd i bob contractwr annibynnol, neu grwpiau contractwyr penodol, yn cael ei rannu drwy rybuddion unigol a/neu drwy gylchlythyr a rennir gyda'r holl gontractwyr.

Mae Tîm Llywodraethu Clinigol Gofal Sylfaenol yn hwyluso sesiwn hyfforddiant ar y Ddyletswydd o Wyrionedd ar gyfer contractwyr annibynnol ac yn bwriadu cynnal y sesiynau hyn eto cyn cyflwyniadau 2025–26, yn ogystal â darparu sesiwn wedi'i recordio a fydd ar gael i gontractwyr annibynnol.

O Ymchwiliad i Welliant: Dysgu o Ganfyddiadau'r Ombwdsmon

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i fod wedi ymrwymo i fod yn agored, yn dryloyw ac i wella gofal cleifion yn barhaus. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n ymchwilio i gwynion gan gleifion a'r cyhoedd ynghylch methiannau mewn gwasanaethau. Mae'r ymgysylltu hwn wedi arwain at lywodraethiant cryfach a gwell cydweithio, gan sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau'r Ombwdsmon yn cael eu gwreiddio mewn gwelliannau i wasanaethau.

I gefnogi hyn, mae **Grŵp Sicrwydd Rheoleiddio'r Bwrdd Iechyd, y Grŵp Diogelwch Cleifion a'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol** gyda'i gilydd yn adolygu, yn monitro ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o ganfyddiadau'r Ombwdsmon. Mae'r dull strwythuredig hwn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i nodi meysydd i'w gwella a rhoi camau gweithredu angenrheidiol ar waith i wella profiad a diogelwch cleifion.

Adroddiadau'r Ombwdsmon a Thyroywder

Pan fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn ac yn penderfynu bod rhywbeth wedi mynd o'i le, bydd adroddiad yn cael ei baratoi i grynhoi'r canfyddiadau. Mewn achosion lle mae angen dysgu ehangach, mae'r mater yn arwyddocaol, neu er budd y cyhoedd, cyhoeddir Adroddiad Budd y Cyhoedd o dan adran 23 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Yn ystod 2024-25, cyhoeddodd yr Ombwdsmon bedwar Adroddiad Budd y Cyhoedd. Cyhoeddwyd un Adroddiad Budd y Cyhoedd gyda chais penodol i'r Bwrdd Iechyd rannu'r canfyddiadau yn ei Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae'r tryloywder hwn yn hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd yn dawel eu meddwl bod dysgu'n digwydd a bod gwelliannau ystyrlon yn cael eu gwneud.

Roedd un achos o'r fath, Achos **202206250**, yn ymwneud â chŵyn a godwyd gan Mrs L ynghylch gofal a thriniaeth ei diweddar fam, Mrs K, a oedd yn dioddef o sepsis bustlog. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi canfod a thrin ei chyflwr yn briodol, gan arwain at anghyfiawnder difrifol i Mrs K a'i theulu. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at gyfleoedd a gollwyd o ran rhoi diagnosis a thrin ei phancreatitis, cyfathrebu annigonol â'i theulu a diffyg gonestrwydd yn ymateb y Bwrdd Iechyd i'r gŵyn. Argymhellodd yr Ombwdsmon y dylai'r Bwrdd Iechyd gydnabod y methiannau hyn a sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori â'r gwelliannau i'r gwasanaeth.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon yn yr adroddiad a rhoddodd ymddiheuriad llawn i Mrs L. Mae'r gwersi allweddol i'w dysgu ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- Mae sicrhau bod gwaith delweddu'n cael ei gwblhau yn gwbl angenrheidiol.
- Mae cyfathrebu'n allweddol ac mae gan bob un ohonom ddyletswydd i sicrhau bod hyn yn gadarn ac wedi'i gofnodi'n llawn.

Mae rhagor o fanylion ac Adroddiadau Budd y Cyhoedd Terfynol yr Ombwdsmon ar

gael ar wefan y Bwrdd Iechyd neu ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy chwilio ar eu tudalen '[Cyhoeddiadau](#)'.

Cyhoeddwyd un Adroddiad ymchwilio penodol hefyd, **Achos 202400693**, gyda chais penodol i'r Bwrdd Iechyd rannu'r canfyddiadau yn ei Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion lle mae unigolion yn credu eu bod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi oherwydd gweithredoedd corff cyhoeddus.

Yn ystod 2024-25, ymchwiliodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i bryderon am y gofal a gafodd Mrs A yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty. Canfu'r ymchwiliad y canlynol:

- Bu oedi cyn rhoi gwely ysbyty i Mrs A, cyn rhoi gwrthfotigau a meddyginiaeth lleddfu poen iddi a chyn cynnal adolygiad clinigol.
- Digwyddodd methiant difrifol pan nad ymatebodd y tîm llawfeddygol, ac ni chafodd hyn ei uwchgyfeirio at uwch glinigydd. O ganlyniad, ni chafodd Mrs A driniaeth brydlon.
- Pe bai'r mater wedi cael ei uwchgyfeirio, mae'n debygol y byddai wedi cael gwrthfotigau'n gynharach ac uwch adolygiad llawfeddygol, a allai fod wedi arwain at ganlyniad gwell.
- Achosodd yr oedi cyn cael meddyginiaeth lleddfu poen ofid diangen iddi.

Canfu'r Ombwdsmon fod y methiannau hyn yn ddifrifol ac yn annerbyniol, gan eu bod wedi rhoi gofal clinigol da yn y fantol. Fe wnaeth hyn achosi cryn anghyfiawnder i Mrs A a'i theulu, y mae'n rhaid iddyn nhw fyw yn awr gan wybod bod cyfleoedd i wella ei gofal wedi'u colli. O ganlyniad, cafodd y gŵyn ei chadarnhau.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon yn yr adroddiad a rhoddodd ymddiheuriad llawn i Mrs C. Mae'r gwersi allweddol i'w dysgu ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- Gwella'r broses o gofnodi atgyfeiriadau am lawdriniaeth drwy'r system rheoli cleifion electronig yn yr Adran Achosion Brys
- Sefydlu cyfarfodydd diogelwch ac uwchgyfeirio rheolaidd ar gyfer trosglwyddo cleifion ac adrodd ar uwchgyfeirio yn yr Adran Achosion Brys

Cryfhau'r Broses o Ddelio â Chwynion a Gwella Gwasanaethau

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Ombwdsmon, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei broses delio â chwynion i sicrhau bod pryderon a godir gan gleifion yn cael sylw prydlon. Mae gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau'r Ombwdsmon wedi cael eu hintegreiddio'n weithredol â gwelliannau i wasanaethau, gan arwain at ddatblygu'r broses Pryderon Integredig. Mae'r dull hwn yn meithrin diwylliant o atebolrwydd a dysgu parhaus, gan ailddatgan ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel.

Gallwch ddarllen mwy am sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei broses gwyno a mentrau gwella eraill i wella ansawdd y gofal mae'n ei ddarparu i'w gleifion, yn yr

Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-25 y gellir dod o hyd iddo drwy wefan y Bwrdd Iechyd.